CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 16eg IONAWR 2024.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng D T Roberts (Cadeirydd) Cyng Ms N Dafydd, G Jones, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, Mrs L Roberts
Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng W R Parry (Llawdriniaeth) R R Roberts (Gwaeledd)

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 21ain TACHWEDD 2023 YN RHAI CYWIR: Cyng N Dafydd, eilio Cyng J E Lewis.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Oherwydd fod Bodffordd Cyf wedi Diddymu, bydd rhaid tynnu y manylion oddi wrth Wefan y Cyngor. Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng G Jones.

Y Cyngor eisiau gwybod pam mae bolards wedi ei gosod dros y ffordd i`r lon ar y palmant yn gwaelod Bodffordd (Groeslon Llangwyllog) Erbyn meddwl maen`t yna ers amser.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2023/331. Cais ol-weithredol ar gyfer cadw 14 o Golofnau yn :-
   Stad Ddiwydiannol Mona, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng G Jones.

2. FPL/2023/338. Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a creu mynedfa newydd ar tir tu ol i:-
   Wenallt, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad. (Er bod rhai Cynghorwyr yn bryderus o`r fynedfa oherwydd ceir yn parcio dros y lon.)
   Cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng Miss B Owen.

PENDERFYNIADAU.

3. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

4. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Rhybudd Fforwm Cyswllt CTaCH - Dyddiad y Cyfarfod Nesaf. Chwefror 6ed 2024. Zoom.

5. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith - Diweddariad Rhagfyr 2023.
   Rhaglen a`r gael ar y Ddolen isod.
   htpps://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-Aelodau`r-Senedd/Blaen-Raglen-Waith-y-Pwyllgor-Gwaith.aspx

6. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Datganiad y Cyngor yn diolch i Staff Stena Line am anrhegion Nadolig i blant Maethu Gymru. Mon wedi derbyn cannoedd o degannau ac anrhegion (i blant sy`n derbyn gofal.
   Derbyn gan y Cyngor. ac yn ddiolchgar am ei rhoddion.

7. Swyddog Polisi - Rhian Wyn Jones.
   Mae miloedd o goed yn cael eoi plannu yng Ngerddi Haulfre, Llangoed bob blwyddyn i rhoi hwb i dargedau sero net yr Ynys. Erbyn 2030. Bydd coed yn gwneud cyfraniad i gael gwared o Garbon o`r Atmosffer.
   Gwybodaeth. aonb@anglesey.gov.wales
   Derbyn y wybodaeth.

8. Swyddog Polisi - Rhian Wyn Jones.
   Camddefnydd o logo gan Gwmni Precision Property Maintenance Ltd (Mr Kris Elize) o Porthaethwy. Yn achosi erlyniad yn Llys Anadon Caernarfon. Achos a ddaethpwyd gan Safonau Masnach Ynys Mon.
   Mr Elize. yn defnyddio logo`s Federation of Masters Builders (FMB) Nid oedd yn Aelod o`r Sefydliadau. Bu rhaid iddo dalu cyfanswm o £2,388.36.
   Cyngor yn derbyn y wybodaeth/

9. Swyddog Polisi - Rhian Wyn Jones.
   Cytunwyd mewn cyflwyniad Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned 14eg Rhagfyr 2023. Cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned - Darlledu, Recordio, Gweithdrefnau. Hybrid a Chyfraniad y Cyhoedd. Ynys Mon Oed-Gyfeillgar.
   Cysylltu. RhianJones3@ynysmon.llyw.cymru

10. Swyddog Polisi - Rhian Wyn Jones.
    Datganiad Tanysgrifiad Gwastraff Gwyrdd 2024/25 ar agor.
    Cafwyd dros 15,500 o gartrefi yn cofrestru llynedd.
    Hannog i gofrestru ar-lein cyn 29ain Chwefror 2024.
    Mae cynnydd o £3 eleni o £35 i £38.
    Ar-lein. www.ynysmon.llyw.cymru/gwastraff-gardd-gwyrdd
    Gwybodaeth. Lee Jones. Uned Gyfarthrebu 01248 752128.
    Cyngor yn ddiolchgar am y wybodaeth. Nid oedd llawer o sylw.

GOHEBIAETH (ARALL)

11. Un Llais Cymru. Wendi Patience.
    Anfonwyd dyddiadau o Hyfforddiant Ionawr, Chwefror a Mawrth 2024 i`r Cynghorwyr, er mwyn iddynt gael amser i feddwl amdano. Mae pwys yn cael ei rhoi ar y Cynghorau i fynychu, a`r Cyngor sydd yn talu y gost. Nid oedd llawer o ddiddordeb, mae yr amseroedd ar adegau annifyr. Cynghorwyr yn gweithio ac ddim isio codi allan i fynychu. Ac fel mae rhai sydd wedi bod yn y cyfarfodydd o`r blaen yn dweud na gwastraff ar amser ydyw, ac ddim llawer doethach ar ol bod. Penderfynwyd cadw mewn golwg, efallai bydd rhywun yn barod i fynd yn y dyfodol. Ond peidio a dal eich gwynt.

Dywedodd Cyng J E Lewis fod gwybodaeth i fod yn dwad o Llangefni. Felly bydd rhaid disgwyl.

12. Cyfundrefn Cyfiawnder yng Nghymru.
Yn glymblaid o sefydliadau gwrth-hiliol a Mudiadau Undebau Llafur sydd wedi llofnodi. Hefo`n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth i fywydau rhai sydd yn cael ei effeithio gyda anffafriaeth hiliol a anghyfiawnder mewn yr Heddlu a system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.
Y Cynghorwyr wedi ei dreulio ac yn ei gefnogi. Cynnig Cyng Mrs L Roberts, eilio Cyng R G Parry. Anfon allan iddynt nawr i ddangos ein cefnogaeth fel Cyngor.

13. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn. Cyng J E lewis yn edrych trwyddo.

14. Un Llais Cymru. Tracey Gilmartin.
Dyma gyfle i`r Cynghorwyr gysylltu yn syth.
Gwylio Cyflymder Cymunedol. Gwahoddiad i Sesiwn i Ddysgu mwy am y Brosiect. GanBwyll I Gwylio Cyflymder Cymunedol
8ed Chwefror 2024 am 7.00. Cyflwyniad drwy`r Saesneg (gyda Chyfieithyddd yn bresennol). Zoom. Cofrestru diddordeb trwy anfon ymateb i karrina.ruta@wlga.gov.uk erbyn 31ain Ionawr 2024.

Buasai y Cyngor yn hoffi dod ar 20mya tuag at Bryn Hyfryd, Bodffordd. Rhoi ar yr Rhaglen nesaf i weld beth am y Tai wrth Capel yn feddwl.

RHODDION.

15. Urdd Gobaith Cymru. Swyddog Cymunedol Ynys Mon. Mari Wyn Williams.
Cyfraniad i Gynorthwyo gyda Chostau`r Urdd yma ym Mon.
Pasiwyd i rhoi £200 i`r uchod. Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng Mrs L Roberts. Pawb yn gefnogol.

PLWYFOL.

16. Lon Foel, Bodwrog anfon sylw. Y Clerc i gysylltu.

17. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd. Y Cyngor yn hunod o ddiolchgar iddi.

MATERION ARIANNOL.

18. Cyfrif Rhedegol £18,110.44. yn cynnwys (£7,390.00 Mynwent Gymunedol)

TALIADAU:

19. Clerc £450.00. Urdd Gobaith Cymru £200.00

Derbyn y taliadau a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng G Jones.

D Owen (Clerc)